# CYNLLUNIAU MARCIO TGAU

**HAF 2024**

**TGAU**
**LLENYDDIAETH GYMRAEG - UNED 1**
**HAEN SYLFAENOL**
**3010N10-1**

© WJEC CBAC Cyf.

**Ynglŷn â'r cynllun marcio hwn**

Pwrpas y cynllun marcio hwn yw sicrhau bod athrawon, dysgwyr a phartïon eraill â diddordeb yn deall y meini prawf asesu a ddefnyddiwyd i asesu'r asesiad penodol hwn.

Marciwyd yr asesiad hwn yn ôl meini prawf penodol mewn cyfres fyw ac mae'r cynllun marcio hwn yn adlewyrchu hynny. Cafodd y ddogfen ei phenderfynu'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynhadledd arholwyr. Derbyniodd tîm o arholwyr cymwys hyfforddiant penodol ar sut i gymhwyso'r cynllun marcio hwn. Bwriad y gynhadledd oedd sicrhau bod yr holl arholwyr yn dehongli ac yn cymhwyso'r cynllun marcio yn yr un modd. Efallai nad yw'n bosibl, nac yn briodol, i'r cynllun marcio hwn gynnwys pob amrywiad y gall ymgeisydd ei gyflwyno mewn ymateb. Fodd bynnag, yn ystod y gynhadledd arholwyr, derbyniodd arholwyr gyfarwyddyd ar sut i ddefnyddio eu barn broffesiynol i wobrwyo ymatebion amgen oedd yn ddilys. Derbyniwyd cyfarwyddyd hefyd yn y ddogfen hon ac adolygwyd ymatebion enghreifftiol.

Gan nad ydynt wedi gallu manteisio ar gymryd rhan yn y gynhadledd arholwyr, mae'n bosibl bod safbwynt athrawon, dysgwyr a defnyddwyr eraill yn mynd i fod yn wahanol o ran rhai manylion neu ddehongliad. Argymhellir yn gryf felly bod y cynllun marcio hwn yn cael ei ddefnyddio ochr yn ochr ag unrhyw gyfarwyddyd arall a gyhoeddwyd, fel enghreifftiau patrymol neu Ganllawiau i Athrawon. Y cynllun marcio hwn yw'r un terfynol. Ni fydd yn cael ei newid onid yw'n amlwg bod gwall yn y ddogfen. Mae'n adlewyrchu’r meini prawf a ddefnyddiwyd i asesu ymatebion ymgeiswyr yn ystod y gyfres fyw.

© WJEC CBAC Cyf.

**TGAU LLENYDDIAETH GYMRAEG**

**UNED 1 - HAEN SYLFAENOL**

**HAF 2024 CYNLLUNIAU MARCIO**

**Y Ferch wrth y Bar yng Nghlwb Ifor** gan Rhys Iorwerth

**Y Ddau Draeth** gan Ceri Dafydd

**Cymharu**

Gellir sôn am bwyntiau megis:

- Mae’r ddau fardd yn gweld rhywbeth sy’n denu’r llygad yn gynnar yn y cerddi.
- Mae’r ddau fardd yn aros cyn gwneud unrhyw symudiad, ond cawn yr argraff bod Ceri Dafydd yn aros am lawer mwy o amser na Rhys Iorwerth, nes bod yr amser iawn wedi dod. Efallai fod Rhys Iorwerth yn fwy byrbwyll.
- Synnwyr gweld sy’n denu Rhys Iorwerth drwy gyfeirio at y llygaid tanbaid, ond synnwyr clywed sy’n denu Ceri Dafydd wrth ddychmygu clywed y chwerthin.
- Mae rhywbeth yn atal y ddau fardd rhag cyrraedd eu cariadon. Mae’r mwg yng ngherdd Rhys Iorwerth yn cael ei adlewyrchu gan y niwl yng ngherdd Ceri Dafydd.
- Mae elfen o gymryd siawns yn y ddwy gerdd. Mae’r ddau fardd yn fentrus ond mewn ffyrdd gwahanol.
- Mae ansicrwydd yn y ddwy gerdd a yw’r beirdd wedi llwyddo. A ddawnsiodd Rhys Iorwerth yn gorfforol gyda’r ferch neu ai ond yn ei feddwl. A gyrhaeddodd Ceri Dafydd y traeth dros y môr? Mae’r ferf dyfodol ‘fydd’ yn creu ansicrwydd.
- Mae’r ddwy yn gerddi am ddau berson yn ceisio cyrraedd rhyw fath o nod yn eu bywydau, sef cwrdd â pherson eu breuddwydion.

© WJEC CBAC Cyf.

**Y Ferch wrth y Bar yng Nghlwb Ifor**

Gellir sôn am bwyntiau megis:

- Mae'r gerdd yn agor yn negyddol gyda'r enw lluosog '[g]aeafau. Mae hyn yn awgrmu cyfnodau anodd yn ei fywyd. Mae'r ansoddair 'feddwol' yn awgrymu nad yw'r bardd yn sicr a yw hyn wedi digwydd o gwbl.
- Yn y berfau 'gwelais', 'estynnais' ac 'ordrais' cawn ddarlun o'r bardd yn weithredol. Ond dim ond gweithredol hyd at ryw fan y mae.
- Mae'r enw 'galar' yn cadarnhau'r tristwch yn y pennill gwreiddiol.
- Awgryma'r 'mwg sigâr' fod yna ryw fath o ffin rhwng y ddau, rhywbeth sy'n dod rhyngddyn nhw.
- Cawn olwg fanylach o'r ferch yn y pennill nesaf, gan ganolbwyntio ar y fflach yn y 'llygaid tanbaid' a'r dyfnder wrth gyfeirio at 'gefnfor o stori'.
- Mae gobaith yn cynyddu yn y pennill nesaf gyda'r ymadrodd 'trwy ryw wyrth'. Hefyd mae'r 'hi' wedi troi'n 'ein' sy'n dangos agosatrwydd at y ferch.
- Ai ei ddychymyg sy'n dweud wrtho ei fod wedi dawnsio gyda'r ferch? Nid yw'n glir a yw'r ddawns yn digwydd go iawn.
- Efallai fod yr ailadrodd ar ddiwedd y gerdd yn awgrymu bod y bardd nôl lle dechreuodd, yn ddigwmni.

© WJEC CBAC Cyf.

**Y Ddau Draeth** gan Ceri Dafydd

Gellir sôn am bwyntiau megis:

- Mae'r gerdd yn agor gyda'r bardd yn gosod y sefyllfa. Mae'n cyfeirio at draeth y mae'n ei weld ar draws y môr, ryw ddwy filltir i ffwrdd.
- Mae'n gofyn y cwestiwn a yw'n ddigon gweld y lle yn unig, neu a ddylai fynd yno?
- Rydyn ni'n gweld y pellter yn yr ail bennill gyda'r bardd yn 'eistedd ar fy nhraeth fy hun', ac rydyn ni'n cael ein cyflwyno i berson arall. Mae'r bardd yn synhwyro bod y person arall yn eistedd ar y traeth ddwy filltir i ffwrdd.
- Mae'r môr yn rhwystr rhwng y ddau. Rhwystr arall yw'r niwl, a'r 'gwynt fel llais yn gwrthod', ond mae'r bardd yn hyderus y bydd y ddau yn cwrdd ryw ddydd.
- Mae'n penderfynu y bydd yn gwneud yr ymdrech ei hun, ac yn nofio'r 'ddwy filltir hir'.
- Nid yw'n glir yn y gerdd a yw'r bardd yn llwyddo i wneud y daith.
- Gellir dehongli bod y ddau draeth yn drosiad am ddau berson.

**Neges**

Mae neges y ddwy gerdd yn debyg, sef bod modd goresgyn rhwystrau.

© WJEC CBAC Cyf.

**Arddull 'Y Ferch wrth y Bar yng Nghlwb Ifor'**

Gellir sôn am bwyntiau megis:

| Enghraifft | Nodwedd |
|---|---|
| gwelais, estynnais | rhestru, berfau |
| tanbaid | ansoddair |
| cefnfor o stori | trosiad |
| sŵn ein dawns | defnydd o synhwyrau |
| yn fan hyn, aeafau'n ôl | ailadrodd |

**Arddull 'Y Ddau Draeth'**

Gellir sôn am bwyntiau megis:

| Enghraifft | Nodwedd |
|---|---|
| chwerthin haul | personoliad |
| chwerthin | ailadrodd |
| gwynt fel llais yn gwrthod | cyffelybiaeth |
| dwy filltir | ailadrodd |
| **llais y gwynt na'r glaw** | trosiad/rhestru/negydd |
| gwrando | synnwyr clywed |

**Mesur**

**Y Ferch wrth y Bar yng Nghlwb Ifor: Englyn Milwr**

Mae'r englyn milwr yn fesur caeth sydd yn adlewyrchu caethiwed y bardd i hudoliaeth y ferch. Mae sŵn hyfryd y gynghanedd yn cyfleu'r ddawns yn y gerdd, ond mae'r mesur cryno yn awgrymu nerfusrwydd y bardd. Efallai fod englyn tair llinell yn hytrach na phedair yn awgrymu bod yna rhywbeth anghyflawn yn ei fywyd.

**Y Ddau Draeth: Mydr ac Odl**

Mae'r bardd yn dyheu am gael trefn mewn bywyd, ac mae'n dyheu am gyrraedd y traeth lle mae'r cariad. Mae sain cyson mydr ac odl yn awgrymu'r tonnau'n mynd a dod.

| | |
|---|---|
| **31-40** | Dangos dealltwriaeth eithaf da o'r cynnwys a'r neges/thema<br>Trafod yn eithaf da addasrwydd ac effeithiolrwydd arddull, mesur ac iaith i greu awyrgylch<br>Defnyddio rhai termau beirniadaeth lenyddol<br>Dangos ymateb personol eithaf da<br>Defnyddio dyfyniadau yn addas<br>Cymharu testunau'n eithaf da<br>*Cyflwyno'r gwaith yn drefnus*<br>*Arddangos gafael gyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg ar y cyfan* |
| **21-30** | Dangos peth dealltwriaeth o'r cynnwys a'r neges/thema<br>Trafod ychydig ar addasrwydd arddull, mesur ac iaith i greu awyrgylch<br>Ymgais i ddefnyddio termau beirniadaeth lenyddol<br>Dangos peth ymateb personol<br>Defnyddio dyfyniadau addas<br>Ymgais i gymharu testunau<br>*Cyflwyno'r gwaith yn lled drefnus*<br>*Gafael anghyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |
| **11-20** | Ymgais i ddangos dealltwriaeth o'r cynnwys a'r neges/thema<br>Ymgais i drafod addasrwydd arddull, mesur ac iaith i greu awyrgylch<br>Ymgais i ymateb yn bersonol<br>Defnyddio ambell ddyfyniad<br>Peth ymgais i gymharu testunau<br>*Dangos trefn mewn rhannau o'r gwaith*<br>*Peth gallu i sillafu, atalnodi a defnyddio gramadeg yn gywir* |
| **0-10** | Ymgais i ddangos peth dealltwriaeth o'r cynnwys a'r neges/thema<br>Cyfeirio at arddull/iaith i greu awyrgylch<br>Dechrau ymateb yn bersonol<br>Ymgais i ddefnyddio ambell ddyfyniad<br>*Ymgais at ddilyniant*<br>*Gafael gyfyngedig ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |



© WJEC CBAC Cyf.